

# Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro

## Tasgau Cyfoethog

<p><b>Ardal: Ardal Goedwig</b></p> <p><b>Amcan Dysgu: Defnyddio gwrthrychau naturiol i ymarfer bondiau rhif hyd at 10</b></p>	<p><b>Grŵp Blwyddyn y CC:</b> <b>Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1</b></p>
<p><b>Maes Dysgu: Datblygiad Mathemategol</b> <b><u>Rhaglen Astudio</u></b> <b><u>Datblygu Ymresymu Rhifyddol</u></b></p> <p>Adnabod prosesau a chysylltiadau</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth</li><li>• Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad</li><li>• Dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio</li><li>• Dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol.</li></ul> <p>Cynrychioli a chyfathrebu</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain.</li></ul> <p>Adolygu</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol.</li></ul> <p>Defnyddio sgiliau rhif</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy</li><li>• Cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod faint sydd yna yn gyfan gwbl.</li></ul>	
<p><b>Pennawd (Addas i blant)</b></p> <p>Helpu'r dewin i gwblhau ei hud.</p>	
<p><b>Meini Prawf Llwyddiant</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Gallu casglu'r nifer cywir o gynhwysion</li><li>• Gallu adio'r ddau grŵp i gael cyfanswm</li><li>• Gallu llunio strategaeth i gyfrifo nifer y gwrthrychau sydd ar goll</li><li>• Gallu casglu'r nifer cywir o wrthrychau ychwanegol i gael cyfanswm o 10.</li></ul>	
<p><b>Beth i'w wneud:</b></p> <p>Mae tudalen wedi rhwygo yn llyfr hud y dewin; mae angen help arno i gwblhau ei hud. Mae'n gwybod bod angen cyfanswm o 10 gwrthrych arno. Mae'r rysâit yn dweud: 3 deilen a 5 brigyn, ond mae'r darn nesaf ar goll. Beth all y dewin ei ychwanegu at y cymysgedd i gwblhau'r hud?</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Dylai'r plant gasglu'r dail a'r brigau</li><li>• Dylent weithio mewn paruau i ddod o hyd i strategaeth i gyfrifo faint o eitemau eraill sydd eu hangen</li><li>• Dylid casglu eitemau eraill</li></ul>	

- Dylai pawb ddod nôl at ei gilydd yn y grŵp a dylid gofyn i ddisgyblion adnabod a rhannu'r prosesau/strategaethau a ddefnyddiwyd ganddynt i gwblhau'r hud.

#### Ymestyn

- I'r disgyblion mwy abl a thalentog – a ydych chi'n gallu dod o hyd i ffordd wahanol/newydd o gwblhau'r hud gyda gwrthrychau eraill?

#### **Adnoddau:**

- Het/Ilyfr hud dewin
- Crochan (E.e. powlen gymysgu/sosban gawl)
- Tudalen rysâit wedi'i rhwygo

